**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cronfa Bensiwn

**Ystafell Bwyllgor 6 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 13 Medi 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Bu'r Cynghorydd P Downing yn llywyddu

| Y Cynghorydd | Y Cynghorydd | Y Cynghorydd |
|---|---|---|
| M B Lewis | D G Sullivan | W G Thomas |

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot**
P Rees

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| I Guy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| W Marshall | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |
| N Mills | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| David Williams | Swyddfa Archwilio Cymru - Arweinydd Tîm Archwilio Ariannol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, C Lloyd

---

## 16 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Rees - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn gweithio i'r awdurdod ac rydw i'n derbyn pensiwn a weinyddir gan Raglen Pensiwn Cyngor Sir Dyfed - personol.

Y Cynghorydd W G Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Swyddogion:**

K Cobb – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

S Williams – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

**17 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir.

**18 Adroddiad ISA 260.**

Cyflwynodd David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiad a oedd yn nodi materion i'w hystyried a oedd yn codi o archwiliad cyfriflenni ariannol y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2017/18 yr oedd angen adrodd amdanynt dan SRA 260.

Cyfanswm yr asedau gros a reolir gan y Gronfa Bensiwn yw £1.9 biliwn.  Barnwyd bod lefelau meintiol camddatganiadau'r Gronfa Bensiwn gwerth £19.1 miliwn. Amlinellodd yr adroddiad y materion sy'n codi ar ôl archwilio cyfriflenni ariannol y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2017-18.

Derbyniwyd y cyfriflenni ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ar 25 Mai 2018, cyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2018.  Roedd Swyddfa Archwilio Cymru'n adrodd am y materion mwy sylweddol a gododd o'r archwiliad, ac roeddent o'r farn bod angen ystyried y rhain cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Trafodwyd y materion hyn eisoes â Swyddog Adran 151.

Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyflwyno adroddiad archwiliad anghymwys am y cyfriflenni ariannol wedi i'r awdurdod ddarparu llythyr cynrychioliadau sy'n seiliedig ar yr hyn a nodwyd yn Atodiad 1. Nodwyd yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

Amlinellwyd na nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y cyfriflenni ariannol a oedd yn dal i fod yn ddiffygiol.  Roedd nifer o gamddatganiadau a oedd wedi'u cywiro gan

reolwyr ond roedd yr archwilwyr o'r farn y dylid tynnu ein sylw atynt oherwydd eu perthnasedd i gyfrifoldebau'r awdurdod lleol dros y broses adrodd ariannol.

Nodwyd y rhain gyda'r esboniadau yn Atodiad 3. Cynyddwyd gwerth y buddsoddiadau hyn yng Nghyfriflen yr Asedau Net £2.5 miliwn o ganlyniad i'r diwygiadau hyn (a chydnabuwyd y cododd hyn fel newid amseru oherwydd roedd angen defnyddio ffigyrau a amcangyfrifir er mwyn cyrraedd amseroedd terfyn cyfrifon). Roedd hefyd nifer o ddiwygiadau cyflwyniadol eraill a wnaed i'r cyfriflenni ariannol drafft a gododd o'r archwiliad.

Nodwyd yr argymhellion allweddol sy'n codi o'r gwaith archwilio ariannol yn Atodiad 4. Roedd y rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddai cynnydd yn cael ei wirio yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Lle'r oedd unrhyw gamau gweithredu heb eu cyflawni, byddai'r archwilwyr yn parhau i fonitro cynnydd a'i gynnwys yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y cadeirydd yr oedd yn gwerthfawrogi ymdrechion y staff ariannu am ddarparu'r cyfriflenni i Swyddfa Archwilio Cymru ymhell o flaen y dyddiad terfyn.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 19 Adroddiad Blynyddol 2017/18.

Darparodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Amlinellir bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau ei archwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon Drafft y Gronfa Bensiwn 2017/18 yn unol â'i gynllun archwilio. Yn unol â'r rheoliad, roedd angen i'r gronfa lunio adroddiad blynyddol sy'n rhoi peth gwybodaeth ychwanegol a nodiadau esboniadol mewn perthynas â gweithgareddau'r gronfa yn ystod y flwyddyn. Diwygiwyd y cyfriflenni ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad a'r argymhellion gan yr archwilydd penodedig.

Roedd Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2017/18 yn Atodiad 1.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

## 20 Adroddiad Toriadau.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion toriadau a gafwyd yn y Gronfa Bensiwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion am y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Gorffennaf 2018. Amlygwyd manylion y toriadau hynny a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y rheolwyr.

## 21 Cais y Corff Derbyn - Freedom Leisure.

Darparodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo cais y corff derbyn ar gyfer Freedom Leisure.

Yn dilyn ymarfer caffael a wnaed gan y cyflogwr rhestredig, Dinas a Sir Abertawe, amlinellwyd y cymeradwyir y contract i Freedom Leisure ddarparu gwasanaethau rheoli hamdden i Gyngor Abertawe. Byddai'r cwmni'n gyfrifol am weithredu'r cyfleusterau hamdden a byddai hyn yn cynnwys y gweithrediadau o ddydd i ddydd, staffio, gwasanaethau cwsmeriaid, iechyd a diogelwch a marchnata'r cyfleusterau. Byddent hefyd yn gyfrifol am fuddsoddi yn ailwampio'r cyfleusterau a gweithredu arferion cynnal a chadw er mwyn cynnal y cyfleusterau hyn. Mae'r contract yn cynnwys gweithrediadau'r LC; canolfannau hamdden Penlan, Penyrheol, Treforys a Chefn Hengoed, Canolfan Chwaraeon Llandeilo Ferwallt a Chyfadeilad Chwaraeon yr Elba. Penderfynwyd bod y gwasanaethau hyn yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer statws corff a dderbynnir o dan Reoliadau CPLIL.

Ychwanegwyd bod Wealden Leisure Limited (yn masnachu fel Freedom Leisure) yn sefydliad gwirioneddol, nid er elw â statws elusen eithriedig a gymeradwyir gan CThEM. Ei nod oedd darparu gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a hamdden o safon ac sy'n fforddiadwy i'r gymuned leol yr oeddent yn eu gwasanaethu. Fel elusen wirioneddol nid oedd ganddynt unrhyw randdeiliaid i'w bodloni, na swm o elw i'w greu oherwydd cwmnïau sy'n cadw cyfalaf mentrau, na difidendau cyfrannau i'w talu i bobl ddienw. Disgwyliwyd i'r contract ar gyfer gwasanaethau i ddechrau ar 1 Hydref 2018.

Ar ben hynny, dan amgylchiadau'r contract, cynigiwyd trosglwyddo'r gweithlu presennol dan drefniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) o'r cyflogwr presennol, Dinas a Sir Abertawe, i Freedom Leisure. Er mwyn cadw hawliau pensiwn y staff a drosglwyddir, cynigir rhoi statws Corff Cydnabyddedig i Freedom Leisure yng Nghronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe. Cynigir hefyd y rhoddir y cytundeb derbyn ar sail cynllun caeëdig, a fydd yn cynnwys y staff a enwir yn unig yn atodlen 1 y cytundeb derbyn.

Byddai'r cytundeb derbyn gofynnol yn amlinellu gwarant y cyflogwr sy'n noddi a sicrhawyd gan y cyflogwr sy'n noddi, Dinas a Sir Abertawe. Byddai'r awdurdod gweinyddu hefyd yn cynnal asesiad risg priodol o'r corff a dderbynnir, Freedom Leisure.

Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau ynghylch yr adroddiad, ac atebodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol.

**Penderfynwyd:** -

1) cymeradwyo Cais y Corff Derbyn gan Freedom Leisure, sy'n destun cwblhau'r Cytundeb Derbyn.

2) rhoi'r awdurdod i swyddogion adran gyfreithiol y cyngor i gwblhau'r Cytundeb Derbyn fel a amlinellwyd yn yr adroddiad.

## 22 Gwahardd y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 23 Partneriaeth Pensiwn Cymru - y diweddaraf. (ar lafar)

Rhoddodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol ddiweddariad ar lafar a amlinellodd cynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 24 Polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol y Polisi Llywodraethu Cymdeithasol, Amgylcheddol (LlCA) i'w fabwysiadu.

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Polisi LlCA.

## 25 Adroddiad gan yr Ymgynghorydd Buddsoddi.

Cyflwynwyd adroddiad 'er gwybodaeth' yr adroddiad chwarterol a oedd yn crynhoi prisiadau ased a pherfformiad y gronfa hyd at 30 Mehefin 2018.

Atodwyd adroddiad chwarterol Hymans Robertson yn Atodiad 1. Nodwyd y Cyfryngau Buddsoddi yn Atodiad 2 a'r Cyfrifiad Perfformiad yn Atodiad 3.

Rhoddwyd hefyd gyflwyniad ar Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe - Strategaethau Diogelu Ecwiti.

**Penderfynwyd** profi'r farchnad o ddarparwyr diogelu ecwiti gyda'r bwriad o weithredu rhaglen ddiogelu cyn gynted ag y bo modd.

## 26 Adroddiad gan y Cynghorwr Annibynnol.

Roedd yr adroddiad 'er gwybodaeth' yn cyflwyno diweddariad economaidd a sylwebaeth y farchnad o safbwynt yr ymgynghorydd buddsoddi annibynnol a benodwyd.

Gorffennodd yr adroddiad chwarterol ar 30 Mehefin 2018 gan yr ymgynghorydd buddsoddi annibynnol, Mr Noel Mills ac fe'i hatodwyd yn Atodiad 1.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Pwyllgor a diolchwyd i'r ymgynghorydd buddsoddi annibynnol am ei adroddiad.

## 27 Crynodeb Buddsoddi.

Rhoddodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad er gwybodaeth a oedd yn cynnwys y perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2018.

Atodwyd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2018 yn Atodiad 1.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.12 pm

**Cadeirydd**